| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **11 Mawrth 2010** |
| TEITL: | **MABWYSIADU SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS) YN Y SECTOR CYHOEDDUS** |
| PWRPAS: | **I hysbysu'r Pwyllgor ar sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â gweithrediad o'r safonau adrodd newydd** |
| AWDUR: | **William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid** |

## 1. CYFLWYNIAD

Rhoddwyd amlinelliad o'r anghenion mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn y sector cyhoeddus yn yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor hon ar 13 Mawrth 2008.

## 2. CEFNDIR

Cysondeb a chymaroldeb rhwng adroddiadau ariannol ar draws y byd yw'r budd o symud at IFRS. Bydd Llywodraeth Canolog a'r Gwasanaeth Iechyd yn paratoi eu datganiadau ariannol ar gyfer 2009/10 ar sail IFRS. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Leol cydymffurfio gyda'r anghenion newydd ar gyfer datganiadau ariannol o 2010/11 ymlaen. Er hynny mae'r angen am ffigurau cymharol yn y datganiadau ariannol yma yn golygu ail-ddatganiad o'r wybodaeth 2009/10 a'r Fantolen ar 31 Mawrth 2009 ar sail IFRS.

## 3. GOFYNION YCHWANEGOL

Mae'r prif wahaniaethau rhwng datganiadau ariannol o dan yr Ymarfer Gyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol (GAAP) sydd yn bodoli yn y DU a'r anghenion newydd o dan IFRS fel y ganlyn:

a) Adnabyddiaeth a mesuriad unrhyw Menter Cyllid Preifat a chytundebau tebyg.

b) Adnabyddiaeth a mesuriad trefniadau prydlesu.

c) Croniad ar gyfer unrhyw hawliau gweithwyr i absenoldebau gwaith, fel gwyliau blynyddol, sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

ch) Gofynion manylach ar gyfer cyfrifo am asedau sefydlog gan gynnwys dadansoddi eiddo i gydrannau, gwerthusiadau ac adolygiadau o asedau mwy aml a newidiadau mewn categorïau o'r asedau i'w dangos.

d) Adroddiad rhannol sydd yn dadansoddi canlyniadau'r flwyddyn rhwng rhannau'r busnes, sydd fel arfer yn adlewyrchu strwythur rheolaethol neu adrannau busnes y sefydliad.

dd) Anghenion datgeliad ychwanegol. Cynyddwyd hyd cyfartal datganiadau cyfrifeg y sector preifat 50% yn dilyn y newid I IFRS.

e) Mae'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r gofynion newydd yma am gael effaith ariannol ar y Cyngor.

## 4. AMSERLEN

Mae *'The Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2010/11 Based on International Financial Reporting Standards'* wedi cael ei chyhoeddi yn barod er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ail-ddatgan eu datganiadau ariannol cyn 2010/11.

## 5. RHEOLI'R PROSIECT

Mae tîm prosiect wedi cael ei sefydlu ac mae'r gwaith asesu'r effaith, gosod amserlen a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn symud ymlaen.

## 6. GWEITHRED GYNLLUNIEDIG

Nid oes gofyn statudol ar gyfer cwblhad y gwaith ail-ddatgan heblaw am y gofyn i gyhoeddi'r ffigurau a ailddatganwyd yng nghyfrifon 2010/11 erbyn 30 Mehefin 2011. Er hynny, bwriedir cwblhau'r gwaith ail-ddatgan erbyn 30 Medi 2010 a chwblhau'r archwiliad o'r wybodaeth a ail-ddatganwyd erbyn 31 Rhagfyr 2010. Bydd hyn yn galluogi adeiladu unrhyw wersi a dysgwyd i mewn i'r broses cau ar gyfer datganiadau ariannol 2010/11 ac i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer datganiad o'r cyfrifon cyntaf sydd yn cydymffurfio efo IFRS o fewn yr amserlen arferol.

## 7. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd hyd yma a chefnogi'r weithred gynlluniedig.